## DISGRIFIAD SWYDD

**Teitl y Swydd:** **Darlithydd mewn Troseddeg a Phlismona Proffesiynol**

**Lleoliad:** **Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd**

**Oriau:** **37 awr yr wythnos**

**Daliadaeth:** **Parhaol**

**Gradd:** **7AB**

**Cyflog:** **£44,263 - £49,794 y flwyddyn**

**Yn atebol i:** **Deon yr Ysgol**

*Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ddangosol, nid yn rhagnodol, a bydd cydbwysedd y dyletswyddau yn unol â'r contract cyflogaeth.*

**Crynodeb o'r Rôl:**

Bydd deiliad y swydd yn cyfrannu'n bennaf at gyflwyno'r BSc (Anrh) Troseddeg. Efallai y bydd gofyn i ddeiliad y swydd hefyd, yn dibynnu ar anghenion staffio, gyfrannu at gyflwyno'r rhaglen BA (Anrh) Plismona Proffesiynol neu MSc Troseddeg ac Ymchwiliadau Troseddol. Efallai y bydd angen cyfraniad hefyd i raglenni hyfforddedig eraill yr Ysgol. Disgwylir i chi hefyd gymryd rhan mewn ymchwil a gweithgareddau ysgolheigaidd sy'n cyfrannu at flaenoriaethau strategol yr Ysgol. Byddant yn goruchwylio ymchwil a lleoliadau myfyrwyr fel y bo'n briodol. Bydd gofyn i chi ymgymryd â gweinyddiaeth sy'n gysylltiedig ag addysgu, rheoli rhaglenni a dyletswyddau eraill yn ôl cyfarwyddiadau Deon yr Ysgol. Disgwylir i chi ymgysylltu â recriwtio myfyrwyr a darparu cyngor ar gyfleoedd gyrfa. Bydd gofyn i chi gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill yn yr ysgol gan gynnwys gweithgareddau arloesi.

## PROFFIL Y RÔL

**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:**

*Mae'r proffil rôl hwn yn ddangosol, nid yn rhagnodol, a bydd cydbwysedd y dyletswyddau yn unol â'r contract cyflogaeth.*

***Cymorth addysgu a dysgu***

- Dylunio deunydd addysgu a'i gyflwyno naill ai ar draws ystod o fodiwlau neu o fewn maes pwnc.
- Defnyddio dulliau addysgu, cymorth dysgu ac asesu priodol.
- Goruchwylio prosiectau myfyrwyr, a/neu e.e. teithiau maes a, lle bo hynny'n briodol, lleoliadau.
- Nodi meysydd lle mae angen adolygu neu wella'r ddarpariaeth gyfredol.
- Cyfrannu at gynllunio, dylunio a datblygu amcanion a deunydd.
- Gosod, marcio ac asesu gwaith ac arholiadau a rhoi adborth i fyfyrwyr.

***Ymchwil ac ysgolheictod***

- Arwain cynigion a phrosiectau ymchwil a/neu arloesi sydd â'r potensial i gynhyrchu incwm, rheoli cyflawniadau prosiectau, cyflawni allbynnau a sicrhau effaith.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid prifysgol i nodi ffynonellau cyllid ymchwil ac arwain y broses o sicrhau arian.
- Rheoli cyflwyno prosiectau ymchwil unigol a / neu gydweithredol yn ôl amser ac o fewn y gyllideb.
- Cymhwyso gwybodaeth a gafwyd o ymchwil ac arloesi yn ogystal ag ysgolheictod i ddysgu ac addysgu, a gweithgareddau allanol priodol. Arwain y gwaith o ddylunio a chynhyrchu cyhoeddiadau a adolygir gan gymheiriaid a/neu allbynnau ymarferwyr , a/neu ledaenu canfyddiadau ymchwil gan ddefnyddio cyfryngau priodol eraill.
- Gwneud cyflwyniadau mewn cynadleddau academaidd a/neu ymarferwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol neu arddangos gwaith mewn digwyddiadau priodol eraill.

***Cyfathrebu***

- Cyfleu syniadau cymhleth a chysyniadol yn rheolaidd.

***Cyswllt a rhwydweithio***

- Cymryd rhan a helpu i ddatblygu rhwydweithiau mewnol ac allanol er budd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ym meysydd addysgu ac ysgolheictod.

***Rheoli pobl***

- Mentora cydweithwyr sydd â llai o brofiad a chyngor ar ddatblygiad personol.
- Yn dibynnu ar y maes gwaith, gellid disgwyl iddynt oruchwylio gwaith pobl eraill.

- Cydlynu gwaith pobl eraill er mwyn sicrhau bod y modiwlau'n cael eu danfon i'r safonau gofynnol.

***Gwaith tîm***
- Gweithredu fel aelod cyfrifol o'r tîm, gan arwain lle cytunir, a datblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gydag aelodau eraill o staff.
- Cydweithio â chydweithwyr i nodi ac ymateb i anghenion myfyrwyr.

***Gofal bugeiliol***
- Gweithredu fel tiwtor modiwl.
- Bod yn gyfrifol am ofal bugeiliol myfyrwyr o fewn ardal benodol.

***Menter, datrys problemau a gwneud penderfyniadau***
- Nodi'r angen i ddatblygu cynnwys neu strwythur modiwlau gyda chydweithwyr a gwneud cynigion ar sut y dylid cyflawni hyn.
- Datblygu syniadau ar gyfer hyrwyddo'r pwnc:
  e.e. Datblygu syniadau a dod o hyd i ffyrdd o ledaenu a chymhwyso canlyniad ysgolheictod.
  e.e. Cyfrifoldeb am ddylunio a darparu modiwlau a dulliau asesu ei hun.
  e.e. Cydweithio â chydweithwyr ar weithredu gweithdrefnau asesu.
  e.e. Cynghori eraill ar faterion strategol fel recriwtio myfyriwr a marchnata.
  e.e. Cyfrannu at achredu cyrsiau a prosesau rheoli ansawdd.
  e.e. Mynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar ansawdd y cyflwyno o fewn y cwmpas o'ch lefel cyfrifoldeb eich hun, gan gyfeirio materion mwy difrifol i eraill, fel y bo'n briodol.

***Cynllunio a rheoli adnoddau***
- Fel arweinydd modiwlau neu diwtor, cydlynu ag eraill (fel staff cymorth neu gydweithwyr academaidd) i sicrhau bod anghenion a disgwyliadau myfyrwyr yn cael eu diwallu.
- Rheoli prosiectau sy'n ymwneud â'u maes gwaith eu hunain a threfnu gweithgareddau allanol fel lleoliadau a theithiau maes.
- Cymryd rhan mewn datblygu syniadau ar gyfer cynhyrchu incwm.
- Bod yn gyfrifol am ddyletswyddau gweinyddol mewn meysydd megis derbyniadau, amserlennu, arholiadau, asesu cynnydd a phresenoldeb myfyrwyr.

***Gofynion synhwyraidd, corfforol ac emosiynol.***
- Cydbwyso pwysau gofynion addysgu a gweinyddol a therfynau amser cystadleuol.

***Amgylchedd gwaith***
- Yng nghyd-destun polisi Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd, yn dibynnu ar faes gwaith a lefel yr hyfforddiant a dderbynnir, gellir disgwyl iddynt gynnal asesiad risg a chymryd cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch eraill.

***Arbenigedd***
- Yn meddu ar ddigon o ehangder neu ddyfnder o wybodaeth arbenigol yn y ddisgyblaeth i ddatblygu rhaglenni addysgu a darparu cymorth dysgu.
- Defnyddio ystod o dechnegau cyflwyno.

*Hysbysiad Safonol*

**Darperir y canllawiau hyn i'ch helpu i gyflawni eich contract. Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig, felly, efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir i'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae tasgau technegol cysylltiedig eraill yn debygol o gael eu cyflawni yn unol â chyfarwyddyd y rheolwr llinell.**

**Derbynnir y bydd gan staff unigol sylfaen sgiliau a gwybodaeth arbenigol mewn perthynas â'r rôl y cawsant eu penodi iddi. Yn ogystal â hyn, mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn disgwyl y bydd pob aelod o staff yn cyfrannu at weledigaeth ac ethos y brifysgol ac yn ymddwyn mewn modd proffesiynol, cwrtais, sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr/cwsmeriaid bob amser. Dylai'r holl staff roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.**

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

## MANYLEB Y PERSON

Teitl y Swydd: Darlithydd mewn Troseddeg a Phlismona Proffesiynol

Ysgol/Uned: Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd

* Allwedd

Ff - Ffurflen gais
C - Cyfweliad
P - Prawf

| FFACTORAU | MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL | EU HASESU GAN | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ff* | C* | P* |
| **Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)** | Gradd anrhydedd da. | ✓ | | |
| | Y gallu i gyflawni Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch, o fewn cyfnod o dair blynedd. | ✓ | ✓ | |
| | Cymhwyster lefel doethuriaeth. | ✓ | | |
| **Addysg a Chymwysterau (Dymunol)** | Gradd Meistr mewn Troseddeg neu ddisgyblaeth debyg yn y gwyddorau cymdeithasol (e.e. Seicoleg, Cymdeithaseg, Plismona Pwnc Cysylltiedig) | ✓ | | |
| | Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch. | ✓ | | |
| | Aelodaeth o gorff proffesiynol. | ✓ | | |
| **Gwybodaeth (Hanfodol)** | Gwybodaeth fanwl am droseddeg neu ddisgyblaeth gysylltiedig arall (ee seicoleg, cymdeithaseg, neu gyfiawnder troseddol, neu blismona). | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Tystiolaeth o ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). | ✓ | | |
| | Dealltwriaeth gadarn o addysgu a dysgu. | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Dealltwriaeth gadarn o ymchwil/arloesi a gweithgaredd ysgolheigaidd. | ✓ | ✓ | |
| **Gwybodaeth (Dymunol)** | Gwybodaeth am raglenni addysgol o fewn asiantaethau cyfiawnder troseddol | ✓ | | ✓ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â'r Rôl (Hanfodol)** | Y gallu i ddylunio deunydd addysgu a dysgu. | ✓ | ✓ | |
| | Y gallu i ddefnyddio dulliau asesu priodol. | ✓ | ✓ | |
| | Y gallu i gyfrannu at gyflawni'r Cynllun Datblygu Ysgol a datblygu gweithgareddau ysgol eraill. | | ✓ | |
| | Y gallu i gyflawni dyletswyddau gweinyddol mewn modd cywir ac amserol. | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Y gallu i gynllunio llwythi gwaith a phrosiectau a rheoli adnoddau'n effeithiol. | ✓ | ✓ | |
| | Y gallu i nodi meysydd i'w gwella a defnyddio sgiliau menter a datrys problemau i wella perfformiad. | ✓ | ✓ | |
| | Y gallu i gymryd cyfrifoldeb am nifer o feysydd allweddol fel tiwtor modiwl, goruchwyliaeth ymchwil ar lefel israddedig. | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Y gallu i gyfathrebu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol mewn amryw o ffyrdd - cyflwyniadau, adroddiadau, deunyddiau dysgu, canlyniadau gweithgaredd ysgolheigaidd, adborth ac ati. | ✓ | ✓ | |
| | Y gallu i ddatblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol fel rhan o dîm proffesiynol. | ✓ | ✓ | |
| | Y gallu i gydweithio drwy ddatblygu partneriaethau priodol. | ✓ | | |
| **Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â'r Rôl (Dymunol)** | | | | |
| **Profiad â Thâl/ Di-dâl (Hanfodol)** | Profiad mewn arweinyddiaeth strategol a gweithredol, mewn amrywiaeth o swyddi gweithredol. | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Profiad o addysgu/gweithgaredd ysgolheigaidd neu gymhwyster cyfatebol. | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Profiad o weithio gydag eraill mewn rôl oruchwylio/arwain/cefnogi/ mentora. | ✓ | ✓ | |
| **Profiad â Thâl/ Di-dâl (Dymunol)** | Profiad o addysgu ac ysgolheictod mewn addysg uwch. | ✓ | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gofynion eraill (Hanfodol)** | Y gallu i ddangos ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch, Safonau Ansawdd. | ✓ | ✓ | |
| **Gofynion eraill (dymunol)** | . | ✓ | | |
| Sgiliau Cymraeg<br><br>**Gwrando**<br><br>**(Dymunol)** | **A1 - Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | | ✓ | |
| Sgiliau Cymraeg<br><br>**Darllen**<br><br>**(Dymunol)** | **A1 - Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg' | | ✓ | |
| Sgiliau Cymraeg<br><br>**Siarad**<br><br>**(Dymunol)** | **A1 - Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | | ✓ | |
| Sgiliau Cymraeg<br><br>**Ysgrifennu**<br><br>**(Dymunol)** | **A1 - Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | | ✓ | |